O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 451 (Cy. 110)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Ffordd Gyfyngedig) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym* | *15 Ebrill 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac yn unol ag adran 83(1) wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Ffordd Gyfyngedig) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2022.

### Cyfarwyddyd

**2.** Bydd y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) ac 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Dileu Cyfyngiad a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2005(**1**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Ebrill 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Llanelwedd yr A470/A483 hyd at bwynt 305 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

(**1**) O.S. 2005/1637 (Cy. 126).